**COFNODION CYFARFOD ANARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 6 MEHEFIN 2024**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths (Cadeirydd)

Rory Francis

David Meirion Jones

Peter Jones

Gareth Davies

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

Sioned Graham-Cameron, Clerc

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Morwenna Pugh, Eifiona Davies, Mark Thomas, Dafydd Dafis, Linda Ann Jones.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. Materion y dylid eu trin yn y cyfarfod fel rhai brys ym marn y Cadeirydd**

Nid oedd unrhyw faterion o'r fath.

**4. Rheolau Sefydlog**

Ystyriwyd Rheolau Sefydlog enghreifftiol newydd a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru. Aethpwyd drwy'r rheolau fesul un ac ystyried mabwysiadu ffurf newydd ar y Rheolau ar gyfer y Cyngor Tref. Cynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis a chytunodd pawb ar ffurf newydd y Rheolau at y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.22pm.

DRAFT